**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Ionawr 18fed 2016 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Brian Davies, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Colin Hughes, Cyng Colin L Hughes.

**Arsylwi:** Cyng Gaynor Morgan Rees; Ruth Williams.

Croesawodd yr is gadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 5(1)(1) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl, Dinbych - personol.
(2) Cyng Gaynor Wood-Tickle - eitem agenda 5(1)(1) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl, Dinbych - personol.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ragfyr 14eg 2015.**

**3. Materion yn codi:** Dywedodd y Cyng Bartley fod cyfarfod cyntaf o'r gweithgor blodau Dinbych i'w gynnal dydd Mercher Ionawr 20fed am 5.45 o'r gloch.

**A. <u>Amgylchedd.</u>**

Goleufeydd Pen Blwydd y Frenhines yn 90 oed 21.4.16. Cyfeiriwyd y cyfarfod at y dogfennau a dderbyniwyd. Cytunwyd I nodi'r ohebiaeth ac i gefnogi unrhyw weithgaredd a ellir cael eu drefnu gan GSDd.

**B. <u>Cyllid</u>**

**1. Cyfrifon:** Taliadau i'w talu: Nid oedd unrhyw daliadau.

**2. Nodwyd a derbyniwyd rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref yn ystod y cyfnod Rhagfyr 22ain 2015 - Ionawr 18fed 2016 (cofnod 147(2) dyddiedig Rhagfyr 21ain 2015 yn cyfeirio) -** tri ar ddeg o daliadau gyda chyfanswm o £7,317.58.

**3. Cysoniad Chwarterol y Banc 2015/2016.** Yn ystod y cyfarfod archwiliwyd y cysoniad chwarterol Rhagfyr 2015 yn y llyfr cyfrifon gan yr holl aelodau oedd yn bresennol ac ardystiwyd y llyfrifiadau yn unol â hynny.

**4. Nodwyd derbyn £62,833 oddi wrth GSDd, sef 3ydd taliad archebiant a'r olaf.**

**5. Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyr yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth Glwb Gwledig Plas Pigot

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Marchnad y Bobl Dinbych - gohiriwyd tan ar ôl y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr o'r cyngor tref a chynrychiolwyr o farchnad y bobl.
(2) Menter Iaith Sir Ddinbych - £1,870.80(A.145)(Rhif siec 005797)

(3) Theatr Twm o'r Nant - £2,909.52(A.145)(Rhif siec.005798)
(4) Cynnig - £1,500 (A.137)(Rhif siec 005799)
(5) Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy
a'r Cyffiniau 2016 - £250 (S.145)(Rhif siec 005800)
(6) RainbowBiz Ltd - Gohiriwyd am fwy o wybodaeth.
(7) Denbigh Men's Shed - Gohiriwyd am wybodaeth am geisiadau grant eraill a gyflwynwyd.
(8) Ambiwlans Awyr Cymru - £500 (A.137)(Rhif siec 005801)

Cyfanswm taliadau cymorthdaliadau: £7,030.32.

**7. Defnydd o wefan y cyngor tref i gyhoeddi datganiadau CSDd i'r wasg.** Cyfeiriwyd at yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth CSDd i ymholiad y cyngor tref. Cytunwyd i beth a awgrymwyd cael ei arbrofi dros gyfnod o 6 mis ac yna i'w adolygu.

**8. Rhent Llinell BT.** Dywedodd clerc y dref fod BT wedi cysylltu â'r cyngor yn cynnig rhent llinell lai ar gontract newydd o ddwy flynedd. Cytunwyd derbyn hyn.

**9**. **Bwrdd Llefydd o Ddiddordeb** ar Stryd y Dyffryn. Dywedodd clerc y dref fod rhannau o'r bwrdd wedi pydru. Derbyniwyd dyfynbris am ffwrdd newydd oddi wrth PR Signs. Cytunwyd fod angen bwrdd newydd ac i dderbyn y dyfynbris am fwrdd newydd allan o bren, yn y swm o £265. Cytunwyd y byddai bwrdd newydd pren yn fwy addas na bwrdd GRP.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.41 o'r gloch.

Arwyddwyd:..................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................